Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 26 Tachwedd 2020 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 20 Tachwedd 2020.

Yn bresennol: Y Cynghorydd Sir De'Ath (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Bradbury, Bridgeman, Burke-Davies, Carter, Cowan, Cunnah, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Howells, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, K Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McGarry, McKerlich, Melbourne, Merry, Michael, Molik, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Dianne Rees, Mia Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

96 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Boyle, Phillips and Morgan

97 : ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER 2020 - 2021

Derbyniodd y Cyngor Blynyddol enwebiad, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Huw Thomas ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Rhys Taylor, i rôl y Gwir Anrhydeddus, Arglwydd Faer Dinas a Sir Caerdydd a Chadeirydd Cyngor Caerdydd.

Yr enwebiad oedd y dylid ethol y Cynghorydd Rod McKerlich fel y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Faer Dinas a Sir Caerdydd a Chadeirydd Cyngor Caerdydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2020-2021.

Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill.

PENDERFYNWYD – Bod y Cynghorydd Rod McKerlich yn cael ei ethol fel Arglwydd Faer a Chadeirydd Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd am y Flwyddyn Ddinesig 2020 – 2021.

*Cafodd yr Arglwydd Faer ei arwisgo gyda'i gadwyni swydd.*

*(Cafwyd cymeradwyaeth gan yr Aelodau drwy guro dwylo).*

*Gwahoddodd y Prif Weithredwr yr Arglwydd Faer i lofnodi'r Datganiadau Derbyn*

*Fe wnaeth yr Arglwydd Faer, y Cynghorydd Rod McKerlich arwisgo'r yr Arglwydd Faeres, Sue McKerlich gyda'i chadwyn swydd.*

98 : PENODI DIRPRWY GADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER 2020 - 2021

Derbyniodd y Cyngor Blynyddol enwebiad, a gynigiwyd gan y Cynghorydd Adrian Robson ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Keith Parry, i rôl Dirprwy Arglwydd Faer Dinas a Sir Caerdydd a Dirprwy Gadeirydd Cyngor Caerdydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2020 - 2021.

Yr enwebiad oedd y dylid penodi'r Cynghorydd Lyn Hudson yn Ddirprwy Arglwydd Faer Dinas a Sir Caerdydd ac yn Ddirprwy Gadeirydd Cyngor Caerdydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2020 - 2021.

Nid oedd unrhyw enwebiadau eraill.

PENDERFYNWYD – Bod y Cynghorydd Lyn Hudson yn cael ei phenodi'n Ddirprwy Arglwydd Faer Dinas a Sir Caerdydd ac yn Ddirprwy Gadeirydd Cyngor Caerdydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2020 - 2021.

*Cafodd Dirprwy Arglwydd Faer Dinas a Sir Caerdydd, y Cynghorydd Lyn Hudson, ei harwisgo gyda'i chadwyni swydd.*

*(Cafwyd cymeradwyaeth gan yr Aelodau drwy guro dwylo).*

*Gwahoddodd y Prif Weithredwr y Dirprwy Arglwydd Faer i lofnodi'r Datganiadau Derbyn.*

*Cafodd Peter Hudson, Cymar y Dirprwy Arglwydd Faer, ei arwisgo gyda'i gadwyn swydd.*

*Gwahoddodd y Prif Weithredwr y Dirprwy Arglwydd Faer i lofnodi'r Datganiadau Derbyn.*

99 : DATGAN BUDDIANNAU

Yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau, datganodd pob Cynghorydd fuddiant personol yn Eitem 15 – Tâl a Lwfansau'r Aelodau 2020 – 2021 a gymeradwyir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

100 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2020 yn gofnod cywir, ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

101 : PROTOCOL YR AELODAU AR DDIOGELU PLANT AC OEDOLION SY'N AGORED I NIWED

Cynigiwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Hinchey, Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd.

Roedd yr adroddiad i ystyried drafft diwygiedig o'r Protocol, gyda'r nod o roi arweiniad a chyngor i Aelodau etholedig ar eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed cyn ailddatgan Ymrwymiad Caerdydd.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Elsmore, yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar yr adroddiad.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd, y Cynghorydd Hinchey, i faterion a godwyd yn y drafodaeth.

Cynigiodd yr Arglwydd Faer bleidlais ar yr adroddiad.

Cafodd yr adroddiad ei dderbyn.

## 102 : YMRWYMIAD CAERDYDD

Roedd yn ofynnol i Aelodau Etholedig ailddatgan yn gyhoeddus a llofnodi'n ffurfiol eu hymrwymiad i'r Ymrwymiad Caerdydd diwygiedig yn flynyddol yng nghyfarfod y Cyngor.

Mae'r Ymrwymiad Caerdydd diwygiedig yn rhoi cyfle i Aelodau Etholedig ymrwymo i ddefnyddio eu cyfnod yn y swydd i weithio i'r Cyngor, y Ddinas a'i dinasyddion; ymrwymo i'r rôl o fod yn rhiant corfforaethol; ac ymrwymo i'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gan y Cyngor, sy'n cynnwys ymrwymiad i ymgymryd â'r holl hyfforddiant y nodwyd ei fod yn hanfodol er mwyn iddynt gyflawni eu rolau'n briodol.

PENDERFYNWYD – Bod yr Aelodau Etholedig a oedd yn bresennol wedi ailddatgan eu hymrwymiad i'r Ymrwymiad Caerdydd diwygiedig yn y cyfarfod ac wedi llofnodi'r ffurflen ddatganiad.

## 103 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

**Cyfeiriodd yr Arglwydd Faer at y canlynol:**

**Diwrnod y Rhuban Gwyn 2020**

Tafluniwyd y symbol symudiad byd-eang dynion a bechgyn sy'n gweithio i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched ar Orthwr Castell Caerdydd, un o dirnodau mwyaf eiconig Caerdydd, i nodi Diwrnod y Cenhedloedd Unedig ddoe ar gyfer dileu trais yn erbyn menywod a merched.

Yn fwy cyffredin, caiff y diwrnod ei alw'n Ddiwrnod y Rhuban Gwyn, ac mae'n digwydd ar 25 Tachwedd bob blwyddyn, yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o'r mudiad, sy'n gweithio tuag at roi terfyn ar drais gwrywaidd yn erbyn menywod a hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol. Mae'r ymgyrch yn cymell dynion i sefyll a chyhoeddi eu hymrwymiad i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a merched.

Tafluniwyd y Rhuban Gwyn ar waliau'r gorthwr, gan ddangos ymrwymiad a dyhead Caerdydd ar gyfer dyfodol heb drais gwrywaidd yn erbyn menywod, tra bod y gwely blodau y tu allan i'r Castell hefyd wedi'i blannu â blodau gwyn ar ffurf rhuban.

Mae cyfres o ddigwyddiadau digidol yn cael eu cynnal i gefnogi Diwrnod y Rhuban Gwyn gan gynnwys gwylnos rithwir yng ngolau cannwyll, sesiynau codi ymwybyddiaeth a hyfforddi amlasiantaethol i weithwyr proffesiynol, yn ogystal â digwyddiadau cyhoeddus ar-lein i unrhyw un a hoffai gael gwybod mwy am y gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Daw'r digwyddiadau i ben ar 10 Rhagfyr sy'n nodi Diwrnod Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig.

**Dwy wobr PawPrints RSPCA i Gartref Cŵn Caerdydd**

Mae Cartref Cŵn Caerdydd wedi derbyn dwy wobr PawPrints RSPCA - gwobr Aur yn y categori Cŵn Strae a gwobr Arian yng nghategori Cŵn Cwt.
Rhoddwyd y gwobrau i gydnabod y ffaith bod safon gwaith y Cartref Cŵn wrth roi cŵn mewn cytiau, a'r ffordd y mae’n gofalu am gŵn strae, yn rhagori ar ofynion sylfaenol a statudol y gwasanaeth. Cefnogir y gwasanaeth gan yr elusen leol 'The Rescue Hotel' sy'n codi arian i ddarparu gwasanaethau ychwanegol fel ymddygiadwyr cymwys ar gyfer cŵn sy'n aros i’w hailgartrefu.

**Mae perfformiad byw wedi dychwelyd i Neuadd Dewi Sant**

Er bod Neuadd Dewi Sant, Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru, yn parhau i fod ar gau yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, bydd nifer o berfformiadau'n cael eu cynnal yn y lleoliad, gan ddechrau'r wythnos hon gydag artistiaid a oedd i fod i berfformio yng Ngŵyl Gerdd Cheltenham.

**Banc Bwyd Caerdydd**

Darparwyd gwybodaeth mewn perthynas â rhoddion i'r Banc Bwyd.

104 : CYHOEDDIADAU’R ARWEINYDD SY'N YMWNEUD Â BLWYDDYN Y CYNGOR SY’N DOD

Dywedodd yr Arweinydd fod hwn yn gyfle i fyfyrio ar ddiwedd y flwyddyn ddinesig heriol estynedig hon o ganlyniad i'r pandemig.

Diolchodd yr Arweinydd i weithlu'r Cyngor am y gefnogaeth a ddarparwyd yn ystod y pandemig yn enwedig y staff ar y rheng flaen a oedd wedi parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol.

Diolchodd yr Arweinydd i'w gydweithwyr yn y Cabinet am eu gwaith a'u cefnogaeth dros y 18 mis diwethaf ac edrychodd ymlaen at weithio gyda nhw eto eleni. Croesawodd fewnbwn y Pwyllgorau Craffu a chefnogaeth yr holl Aelodau a Swyddogion Etholedig am y ffordd gadarnhaol yr oeddent wedi ymgysylltu â'r Arweinydd a'r Cabinet i sicrhau'r canlyniadau gorau i Gaerdydd a'i dinasyddion, yn ystod y cyfnod heriol hwn.

105 : PENODI AELODAU O'R CABINET (PAN Y DISGWYLIR ETHOLIAD O'R FATH);

Cadarnhaodd yr Arweinydd benodiad ei Aelodau Cabinet gyda'r portffolios canlynol.

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Sarah Merry | Dirprwy Arweinydd<br>Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau |
| Y Cynghorydd Graham Hinchey | Plant a Theuluoedd |
| Y Cynghorydd Susan Elsmore | Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant |
| Y Cynghorydd Lynda Thorne | Tai a Chymunedau |
| Y Cynghorydd Caro Wild | Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth |
| Y Cynghorydd Russell Goodway | Buddsoddi a Datblygu |
| Y Cynghorydd Michael Michael | Strydoedd Glân, Ailgylchu a'r Amgylchedd |
| Y Cynghorydd Peter Bradbury | Diwylliant a Hamdden |
| Y Cynghorydd Christopher Weaver | Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad |

106 : SEFYDLU PWYLLGORAU SEFYDLOG Y CYNGOR AR GYFER 2020 - 2021

Mae'r Cyfansoddiad yn sicrhau y bydd y Cyngor yn ei gyfarfod Blynyddol yn penderfynu ar unrhyw ddiwygiadau i'w bwyllgorau sefydlog ar gyfer y flwyddyn ddinesig gan gynnwys diwygiadau i faint a chylch gorchwyl y pwyllgorau hynny.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cyngor yn

a. cymeradwyo sefydlu a maint Pwyllgorau'r Cyngor a nodir ym mharagraff 3 (Tabl A); a thelerau cyfeirio pob Pwyllgor, fel y nodir yn **Atodiad A** o'r adroddiad hwn, ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2020-2021; ac

b. awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiweddaru cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yn y Cyfansoddiad.

107 : DYRANNU SEDDI AC ENWEBIADAU A PHENODIADAU AELODAU I BWYLLGORAU

Gofynnwyd i'r Cyngor benderfynu ar ddyraniad seddi ar Bwyllgorau i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r Rheolau Cydbwysedd Gwleidyddol a geir yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 fel y'u diwygiwyd.

Derbyniwyd enwebiadau yn unol â dymuniadau'r grwpiau gwleidyddol i benodi Aelodau i'r Pwyllgor ac ymddangosodd y rhain ar y daflen ddiwygio.

Gofynnir i'r Cyngor hefyd gymeradwyo estyniad i'r absenoldeb a roddwyd i Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio; a phenodi cynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr i'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i lenwi swydd wag.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cyngor yn

a. Cymeradwyo'r dyraniad o seddi ar Bwyllgorau am weddill y flwyddyn ddinesig 2019/20 fel y'i nodir yn **Atodiad A**;

b. Derbyn enwebiadau gan Grwpiau Plaid mewn perthynas â'r seddi a ddyrennir i bob Grŵp fel y nodir yn **Atodiad B**;

c. Penodi Aelodau i bob Pwyllgor yn unol â'r enwebiadau a gafwyd gan Grwpiau'r Pleidiau fel y nodir ar y daflen ddiwygio;

d. Gofyn i'r Swyddog Monitro wneud penodiadau mewn perthynas ag unrhyw swydd wag sy'n weddill yn unol ag unrhyw enwebiadau neu newidiadau pellach a dderbyniwyd gan y grwpiau gwleidyddol perthnasol yn dilyn y cyfarfod hwn, ac i adrodd i gyfarfod nesaf y Cyngor fanylion yr holl benodiadau i bwyllgorau er gwybodaeth;

e. Cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Archwilio i ganiatáu'r cais am estyniad i absenoldeb Mr Ian Arundale tan ddiwedd blwyddyn ddinesig 2020/21; a

f. Chymeradwyo ailbenodi Ms Karen Dell'Armi yn gynrychiolydd rhiant-lywodraethwyr ar y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc am gyfnod pellach o ddwy flynedd gan ddechrau ar 27ain Tachwedd 2020.

108 : ETHOL CADEIRYDDION A DIRPRWY GADEIRYDDION PWYLLGORAU

Gofynnwyd i'r Cyngor ethol Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion Pwyllgorau a sefydlwyd gan y Cyngor Blynyddol. Ar gyfer Pwyllgorau Craffu roedd hyn yn unol â'r egwyddorion a nodir yn adran 70 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, fel y trafodwyd gyda'r grwpiau gwleidyddol. Ymddangosodd enwebiadau'r grŵp gwleidyddol ar y daflen ddiwygio. Ni chafwyd cystadleuaeth ar gyfer unrhyw Gadeiryddion neu Is-gadeiryddion.

PENDERFYNWYD: Y byddai’r Cyngor yn

1. Etholwyd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion (fel sy’n briodol) i’r Pwyllgorau Rheoliadol a Phwyllgorau Eraill yn unol â dymuniadau’r grwp gwleidyddol fel a ganlyn:

| **Pwyllgorau a Grwpiau Rheoliadol ac Eraill** | **Cadeirydd** | **Dirprwy Gadeirydd** |
|---|---|---|
| Pwyllgor y Cyfansoddiad | Y Cyng. Russell Goodway | - |
| Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol | Y Cyng. Sarah Merry fel Dirprwy Arweinydd | - |
| Pwyllgor Apeliadau'r Cyngor | Y Cyng. Lay | - |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Y Cyng. Mike Jones-Pritchard | - |
| Pwyllgor Amodau Cyflogaeth | Y Cyng. Chris Weaver | - |
| Pwyllgor Trwyddedu | Y Cyng. Norma Mackie | Y Cyng. Bob Derbyshire |

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Pensiynau | Y Cyng. Chris Weaver | - |
| Pwyllgor Cynllunio | Y Cyng. Keith Jones | Y Cyng. Ed Stubbs |
| Pwyllgor Diogelu'r Cyhoedd | Y Cyng. Norma Mackie | Y Cyng. Bob Derbyshire |
| Gweithgor Caerdydd Ddwyieithog | Y Cyng. Owen Jones | - |
| Panel Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol | Y Cyng. Sarah Merry fel Dirprwy Arweinydd | - |

2. cytunwyd ar ddyraniad cyfrannol Cadeiryddion Craffu fel y'u nodir yn yr adroddiad;

3. yn amodol ar gymeradwyo argymhelliad (2), y penodiadau arfaethedig i'r Cadeiryddion Craffu sydd i'w gwneud gan ran Grwpiau yn unol â Rhan 6 o Fesur Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

| **Pwyllgorau Craffu** | Cadeirydd |
|---|---|
| Plant a Phobl Ifanc | Y Cyng. Lee Bridgeman |
| Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion | Y Cyng. Shaun Jenkins |
| Economi a Diwylliant | Y Cyng. Nigel Howells |
| Amgylcheddol | Y Cyng. Ramesh Patel |
| Adolygu Polisïau a Pherfformiad | Y Cyng. David Walker |

109 : PENODI CYNRYCHIOLWYR I GYRFF ALLANOL

Derbyniodd y Cyngor enwebiadau i'r cyrff allanol hynny y mae angen enwebiadau ar eu rhan yn flynyddol, neu y mae eu hangen ar hyn o bryd, er mwyn bodloni terfynau amser penodol. Cynhwyswyd enwebiadau a dderbyniwyd gan Grwpiau'r Pleidiau ar y daflen ddiwygio.

PENDERFYNWYD -

1. cymeradwyodd y Cyngor yr enwebiadau a dderbyniwyd ar gyfer penodiadau i gyrff allanol fel a ganlyn: -

| **Enw'r Sefydliad** | **Nifer y Cynrychiolwyr** | **Cynrychiolydd Penodedig** |
|---|---|---|
| Artes Mundi | 1 Aelod (yr Aelod Cabinet perthnasol) | Y Cyng. Peter Wong |
| Cyngor Celfyddydau Cymru – Pwyllgor Ardal De Cymru | 1 Aelod (yr Aelod Cabinet perthnasol) | Y Cyng. Peter Bradbury |
| Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (APSE) | 1 Aelod (yr Aelod Cabinet perthnasol) | Y Cyng. Michael Michael |
| Butetown Artists | 1 Aelod | Y Cyng. Saeed Ebrahim |
| Cambrian Educational Foundation for Deaf Children | 1 Aelod | 1 swydd wag |

| | | |
|---|---|---|
| Corfforaeth Coleg Caerdydd a'r Fro | 1 Aelod (yr Aelod Cabinet perthnasol) | Y Cyng. Sarah Merry |
| Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd a'r Fro | 3 Aelod (Gall fod naill ai'n aelod etholedig neu'n benodiad gan y Cyngor) | Y Cyng. Dilwar Ali<br>Y Cyng. Susan Goddard<br>Mrs Irene Humphries |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro | 3 Aelod | Y Cyng. Susan Elsmore<br>Y Cyng. Graham Hinchey<br>Y Cyng. Lynda Thorne |
| Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 1 Aelod | Y Cyng. Iona Gordon |
| Partneriaeth Bioamrywiaeth Caerdydd (a elwir yn Bartneriaeth Natur Leol Caerdydd cyn bo hir) | 1 Aelod | Y Cyng. Bob Derbyshire |
| Bws Caerdydd | 5 Aelod | Y Cyng. Chris Lay<br>Y Cyng. Gavin Hill-John<br>Y Cyng. Owen Jones<br>Cyng. Emma Sandrey<br>Y Cyng. Kanaya Singh |
| Bwrdd Gwella Busnes Caerdydd | 1 Aelod | Y Cyng. Huw Thomas |
| Panel Maethu Caerdydd | 1 Aelod | Y Cyng. Susan Goddard |
| Pwyllgor Ymgynghorol Mae Awyr Caerdydd | 2 Aelod (Aelod Cabinet Perthnasol + 1 dirprwy a enwebwyd) | Y Cyng. Caro Wild<br>Y Cyng. Russell Goodway |
| Pwyllgor Cynghorol Bae Caerdydd | 2 Aelod (Aelod Perthnasol o'r Cabinet + 1 sylwedydd enwebedig) | Y Cyng. Michael Michael<br>Y Cyng. Caro Wild |
| Canolfan Dechnoleg Busnes Caerdydd (CBTC) | 4 Aelod (yr Aelod Cabinet perthnasol) | Y Cyng. Russell Goodway<br>Y Cyng. Bernie Bowen-Thomson<br>Y Cyng. Graham Hinchey<br>Y Cyng. Owen Jones |
| Mind Caerdydd | 1 Aelod | Y Cyng. Ed Stubbs |
| Ymddiriedolaeth Datblygu Amgueddfa Caerdydd | 1 Aelod (yr Aelod Cabinet perthnasol) | Y Cyng. Peter Bradbury |
| Llys Prifysgol Caerdydd | 3 Aelod (gan gynnwys Cadeirydd y Cyngor) | Y Cyng. Rod McKerlich<br>Y Cyng. Dan De'Ath<br>Y Cyng. Joel Williams |
| Care & Repair Cardiff | 1 Aelod (yr Aelod Cabinet perthnasol) | 1 swydd wag |
| Chapter (Cardiff) Limited | 1 Aelod | Y Cyng. Stephen |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cunnah |
| Consortiwm Awdurdodau Lleol yng Nghymru | 1 Aelod (yr Aelod Cabinet perthnasol) | Y Cyng. Russell Goodway |
| Ymddiriedolaeth Gadw Adeiladau Cymric | 2 Aelod (Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Cynllunio) | Y Cyng. Keith Jones<br>Y Cyng. Ed Stubbs |
| Grassroots (Caerdydd) Ltd | 1 Aelod | Y Cyng. Norma Mackie |
| Gweithredu Caerdydd ar gyfer y Digartref Sengl | 1 Aelod | Y Cyng. Mary McGarry |
| Cyd-gyngor Cymru | 2 Aelod (1 Aelod Perthnasol o'r Cabinet) | Y Cyng. Chris Weaver<br>1 swydd wag |
| Bwrdd Partneriaeth Lefelau Byw (RSPB) | 1 Aelod (yr Aelod Cabinet perthnasol) | Y Cyng. Peter Bradbury |
| Fforwm Mynediad Lleol | 1 Aelod | Y Cyng. Bob Derbyshire |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol | 4 Aelod (gan gynnwys yr Arweinydd) | Y Cyng. Joe Boyle<br>Y Cyng. Sarah Merry<br>Y Cyng. Adrian Robson<br>Y Cyng. Huw Thomas |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Stadiwm y Mileniwm | 1 Aelod | Y Cyng. Peter Bradbury |
| Stadiwm y Mileniwm PLC | 1 Aelod | Y Cyng. Huw Thomas |
| Meiri dros Heddwch y DU a Rhwydwaith Chabidylau Iwerddon (Rhan o'r NFLA) | 1 Aelod | Y Cyng. Sue Lent |
| Awdurdodau Lleol Di-niwclear | 1 Aelod | Y Cyng. Sue Lent |
| PATROL – Rheoliadau Parcio a Thraffig y tu allan i Lundain | Grŵp Cenedlaethol 1 Aelod<br>Grŵp Cymru 1 Aelod | Y Cyng. Caro Wild |
| Partneriaeth Aber Afon Hafren | 1 Aelod (yr Aelod Cabinet perthnasol) | Y Cyng. Michael Michael |
| Awdurdod Tân ac Achub De Cymru | 5 Aelod (3 Llafur, 1 Ceidwadwr ac 1 Democratiaid Rhyddfrydol) | Y Cyng. Dilwar Ali<br>Y Cyng. Saeed Ebrahim<br>Y Cyng. Ashley Lister<br>Y Cyng. Dan Naughton<br>Y Cyng. Joel Williams |
| Bwrdd Lles Llynges Fasnach De Cymru | 2 Aelod | Y Cyng. Chris Weaver<br>1 swydd wag |
| Panel Heddlu a Throseddu De Cymru | 2 Aelod | Y Cynghorydd Bernie Bowen-Thomson<br>Y Cyng. Jayne Cowan |
| Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru – Fforwm Aelodau ar Ddatganiadau Technegol | 1 Aelod | Y Cyng. Michael Michael |

| | | |
|---|---|---|
| Rhanbarthol | | |
| Cist Gymunedol Chwaraeon Cymru | 3 Aelod (yr Aelod Cabinet Perthnasol) | Y Cyng. Peter Bradbury<br>Y Cyng. Chris Weaver<br>1 swydd wag |
| Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | 5 Aelod (yr Aelod Cabinet Perthnasol | Y Cyng. Sarah Merry<br>Y Cyng. Fenella Bowden<br>Y Cyng. Bernie Bowen-Thomson<br>Y Cyng. Jane Henshaw<br>Y Cyng. Mike Jones-Pritchard |
| Panel Maethu Cymoedd Caerdydd (Panel Mabwysiadu Caerdydd gynt) | 1 Aelod | Y Cyng. Sue Lent |
| Cydbwyllgor Cydweithfa Fabwysiadu Rhanbarthol y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd | 1 Aelod | Y Cyng. Graham Hinchey |
| Cyngor Cymru dros Bobl Fyddar | 1 Aelod | Y Cyng. Lynda Thorne |
| Cyngor Cymru dros Bobl Ddall | 1 Aelod | Y Cyng. Graham Hinchey |
| Cyngor Llyfrau Cymru | 1 Aelod | Y Cyng. Jane Henshaw |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) | 8 Aelod | Y Cyng. Peter Bradbury<br>Y Cyng. Susan Elsmore<br>Y Cyng. Russell Goodway<br>Y Cyng. Sarah Merry<br>Y Cyng. Michael Michael<br>Y Cyng. Huw Thomas<br>Y Cyng. Lynda Thorne<br>Y Cyng. Chris Weaver |
| Bwrdd Gweithredol CLlLC | 1 Aelod | Y Cyng. Huw Thomas |
| Ymddiriedolaeth Cartrefi er cof am Willie Seager | 2 Aelod (Ymddiriedolwyr enwebiadol o'r Cyngor – Cyfnod y Swydd – 4 blynedd) | Y Cyng. Joe Boyle<br><br>Georgina Phillips |

## 110 : TÂL A LWFANS AELODAU 2020 - 2021

*(Yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau, datganodd pob Cynghorydd fuddiant personol yn yr eitem hon).*

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, fel ei gyfarfod blynyddol, gymeradwyo Cynllun Lwfansau Aelodau i fodloni gofynion Rheol Gweithdrefn Cyfarfod y Cyngor, Rheol 2 (b) (xvi).

Derbyniodd a chymeradwyodd y Cyngor adroddiad ar Atodlen Cydnabyddiaeth yr Aelodau yn ei gyfarfod ar 23 Gorffennaf 2020 i fodloni gofynion cyhoeddi Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiadau Blynyddol ac Atodol.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn

1. nodi cymeradwyaeth Rhestr Cydnabyddiaeth yr Aelodau 2020/21, fel y nodir yn **Atodiad A** gan y Cyngor ar 23 Gorffennaf 2020

111 : RHAGLEN O GYFARFODYDD Y CYNGOR

Mae Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn darparu bod y Cyngor Blynyddol yn cymeradwyo rhaglen o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor Llawn ar gyfer pob blwyddyn ddinesig a rhaglen dros dro o gyfarfodydd ar gyfer Pwyllgorau'r Cyngor. Derbyniodd y Cyngor raglen arfaethedig cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Awst 2021.

PENDERFYNWYD: Y byddai’r Cyngor yn:

(1) cymeradwyo'r rhaglen o ddyddiadau cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau ar gyfer Tachwedd 2020 – Awst 2021 yn amodol ar ymgynghori pellach â Chadeiryddion Pwyllgorau a benodir gan y Cyngor; ac yn

(2) dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r rhaglen o gyfarfodydd Pwyllgor a gofyn i'r rhaglen derfynol gael ei hadrodd i gyfarfod arferol y Cyngor ar 28 Ionawr 2021 i'w chymeradwyo.

112 : MATERION BRYS

Dywedodd y Cadeirydd na dderbyniwyd unrhyw hysbysiad o unrhyw fusnes brys.

*(Daeth y cyfarfod i ben am 4:10pm)*